Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

## Crynodeb o'r Bil

Ebrill 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

## Crynodeb o'r Bil

Ebrill 2024

**Awdur**:
Josh Hayman

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Cipolwg ar y Bil ........ 2**

**3. Crynodeb o'r darpariaethau ........ 3**

Adran 1 – Cyfran a gosodiad menywod ar restrau o ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd ........ 3

Adran 2 – Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon etc. ........ 6

Adran 3 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc. ........ 6

Adran 4 – Dod i rym ........ 7

Adran 5 – Enw byr ........ 7

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd **Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)** ("y Bil") ar 11 Mawrth 2024.

Jane Hutt AS, y Trefnydd a'r Prif Chwip, yw'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil.

Mae **Memorandwm Esboniadol** y Bil yn datgan mai ei ddiben cyffredinol yw gwneud y Senedd:

> [..]yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer pobl Cymru ac ar ran pobl Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, nod y Bil yw sicrhau bod y Senedd yn gynrychioliadol ar y cyfan o gyfansoddiad rhywedd y boblogaeth.

Cyhoeddwyd **datganiad ysgrifenedig** gan yr Aelod sy'n Gyfrifol ar 11 Mawrth 2024.

Cyflwynwyd y Bil yn rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru o ddiwygio etholiadol, sy'n cynnwys **Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)** a'r **Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**.

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn rhyngweithio â Rhan 2 o **Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**, fel y'i cyflwynwyd, sy'n amlinellu'r system bleidleisio arfaethedig ar gyfer etholiadau cyffredinol y Senedd.

Mae'r Bil ar ei daith drwy **broses ddeddfwriaethol y Senedd** ar hyn o bryd. Ymddangosodd yr Aelod sy'n Gyfrifol gerbron y Pwyllgor Biliau Diwygio ar **13 Mawrth 2024**. Cynhaliodd y Pwyllgor **ymgynghoriad cyhoeddus** ar y Bil a bydd yn cynnal rhagor o sesiynau tystiolaeth lafar dros yr wythnosau nesaf.

Bydd y **Pwyllgor Cyllid** yn ystyried goblygiadau ariannol y Bil, a bydd y **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** yn ystyried ansawdd a chyfreithlondeb y ddeddfwriaeth.

### Sut i ddefnyddio'r crynodeb hwn o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ar y Bil. Mae i'w defnyddio'n electronig ac i gyfeirio at ragor o fanylion.

Yn yr adran crynodeb o'r darpariaethau, mae testun rhif yr adran (e.e. adran 1) yn cysylltu â'r adran berthnasol o'r Bil. Mae'r testun sy'n dilyn yn cynnwys linc i'r nodiadau esboniadol lle y ceir rhagor o fanylion.

# 2. Cipolwg ar y Bil

Mae pum adran i'r Bil:

- cyfran a gosodiad menywod ar restrau o ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd;
- adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon etc.;
- pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.;
- dod i rym; ac
- enw byr.

**Is-ddeddfwriaeth**

Nid yw **adran 1** o'r Bil yn darparu pwerau newydd i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth, ond mae'n estyn pŵer sy›n bodoli eisoes o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ganiatáu neu i'w gwneud yn ofynnol gwneud darpariaeth mewn Gorchymyn o dan yr adran honno.

Mae **adran 3** o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed y maent yn ystyried ei bod yn briodol er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Bil.

Mae **adran 4(2)-(3)** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddod ag adrannau 1 a 2 o'r Bil i rym ar ddyddiad o'u dewis.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn cynnwys tablau sy'n nodi'r pwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth a'r **gweithdrefnau craffu** y bydd y Senedd yn eu defnyddio i graffu arnynt. Mae'r **Datganiad o Fwriad Polisi** yn rhoi rhagor o fanylion am yr is-ddeddfwriaeth y gellir ei gwneud o dan y Bil.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n rhoi crynodeb o gostau a manteision amcangyfrifedig y Bil.

# 3. Crynodeb o'r darpariaethau

## Adran 1 – Cyfran a gosodiad menywod ar restrau o ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd

Mae **adran 1** o'r Bil yn mewnosod adrannau newydd 7A-7D yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) i ddarparu ar gyfer **cyfran a gosodiad menywod ar restrau o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd**.

### Adran newydd 7A - Rhaid i o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr a gyflwynir o dan adran 7 fod yn fenywod

Mae **adran newydd 7A o Ddeddf 2006** yn cyflwyno **dau fath o reol cwota** a fyddai'n gymwys i restrau ymgeiswyr ym mhob un o etholaethau'r Senedd:

- **trothwy isaf** ar gyfer ymgeiswyr benywaidd (o leiaf 50 y cant); a
- **meini prawf gosod fertigol** o ran gosod menywod ar restrau.

Mae **adran newydd 7A(1)** yn cymhwyso'r rheolau hyn i bleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n cyflwyno rhestrau o ymgeiswyr sy'n cynnwys dau neu ragor o ymgeiswyr ar gyfer un o etholaethau'r Senedd (h.y. ni fydd yn gymwys i ymgeiswyr unigol (annibynnol) nac i restr sy'n cynnwys dim ond un ymgeisydd).

Mae **adran newydd 7A(2)-(3)** yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr etholiadol a gyflwynir gan blaid wleidyddol gofrestredig yn un o etholaethau'r Senedd yn fenywod. Dyma ddull y **'trothwy isaf'**. Pan fo gan blaid eilrif o ymgeiswyr ar restr, rhaid i o leiaf hanner yr ymgeiswyr hynny fod yn fenywod, a phan fo gan blaid odrif o ymgeiswyr ar restr, rhaid i'r mwyafrif fod yn fenywod.

Mae **adran newydd 7A(4)** yn nodi'r meini prawf gosod fertigol y mae rhaid i bleidiau gwleidyddol eu dilyn wrth osod ymgeiswyr ar restr etholiadol. Mae'n cynnig bod rhaid i ymgeisydd ar restr nad yw'n fenyw (oni bai mai dyma'r ymgeisydd olaf ar y rhestr) gael ei ddilyn yn syth gan fenyw. Yn wahanol i drefn y rhestrau 'am yn ail', byddai'r system hon yn caniatáu i'r pleidiau osod mwy nag un fenyw yn olynol ar restr.

## Adran newydd 7B - Rhaid i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau a gyflwynir gan blaid fod yn fenyw

Mae **adran newydd 7B** yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau a gyflwynir ym mhob etholaeth gan blaid **fod yn fenyw**. Dyma ddull y **'meini prawf gosod llorweddol'**.

Mae **adran newydd 7B(1)** yn cymhwyso'r rheolau hyn i bleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n cyflwyno rhestrau o ymgeiswyr ar gyfer dwy neu ragor o etholaethau'r Senedd. Os bydd gan blaid ymgeiswyr mewn un etholaeth yn unig, ni fydd y rheol hon yn berthnasol.

Mae **adran newydd 7B(2)-(3)** yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf hanner yr ymgeiswyr yn y safle cyntaf ar restrau a gyflwynir gan blaid wleidyddol gofrestredig yn fenywod. Pan fo plaid yn sefyll mewn eilrif o etholaethau, rhaid i o leiaf hanner yr ymgeiswyr yn y safle cyntaf fod yn fenywod, a phan fo plaid yn sefyll mewn odrif o etholaethau, rhaid i fwyafrif yr ymgeiswyr yn y safle cyntaf fod yn fenywod.

## Adran newydd 7C - Y swyddog cydymffurfiaeth enwebiadau cenedlaethol a gorfodi adran 7B

Mae **adran newydd 7C(1)** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i **greu Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol** (SCEC) mewn gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006 (sef y Gorchymyn Cynnal Etholiadau). Byddai'r SCEC yn gyfrifol am orfodi'r meini prawf gosod llorweddol.

### Y Gorchymyn Cynnal Etholiadau

Mae **Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** yn darparu pŵer eang i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau'r Senedd.

Defnyddiwyd y pŵer hwn yn y gorffennol i wneud **Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007**. Mae'r Gorchymyn wedi'i adolygu a'i ddiwygio cyn pob un o etholiadau'r Senedd, ond mae Llywodraeth Cymru wedi **ymrwymo** i gydgrynhoi ac ail-wneud fersiwn ddwyieithog newydd o'r Gorchymyn cyn etholiad nesaf y Senedd.

Mae'r Gorchymyn yn cynnwys llawer o'r manylion am y modd y cynhelir etholiadau'r Senedd.

Bydd llawer o'r manylion gweithredol sy'n ymwneud â'r camau ymarferol y mae rhaid i'r SCEC eu cymryd neu y caniateir i'r SCEC eu cymryd yn cael eu nodi yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, mae adran newydd 7C(2)-(4) yn nodi'r hyn y caiff y Gorchymyn Cynnal Etholiadau wneud darpariaeth ar ei gyfer:

- Swyddogaethau'r SCEC (**adran 7C(2)**).
- Pa gamau y caniateir eu cymryd neu y mae rhaid eu cymryd pan na fo'r rhestrau o ymgeiswyr yn cydymffurfio â'r rheolau llorweddol (**adran 7C(3)(a)**):
  - gan gynnwys sut y caiff yr SCEC benderfynu ar y rhestr neu'r rhestrau a fyddai'n cael eu newid, neu sut y mae rhaid iddo benderfynu ar hynny (**adran 7C(4)(a)**).
- Swyddogaethau'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol (SCE) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau llorweddol (**adran 7C(3)(b)**):
  - gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r SCE neu alluogi'r SCE i aildrefnu rhestr a ddewiswyd gan yr SCEC os yw wedi penderfynu nad yw rhestrau plaid yn cydymffurfio â'r rheolau llorweddol (h.y. os nad yw o leiaf 50 y cant o'r ymgeiswyr yn y safle cyntaf ar ei rhestrau yn fenywod); ac
  - os nad menyw yw'r unig ymgeisydd ar y rhestr a ddewiswyd i'w haildrefnu, na fyddai'r ymgeisydd wedi ei enwebu mwyach ac na fyddai gan y blaid honno ymgeisydd yn yr etholaeth honno (**adran 7C(4)(b)(ii)**).

## Darpariaeth benodol yn ymwneud ag adrannau 7A a 7B y caniateir neu y mae rhaid ei gwneud mewn gorchymyn o dan adran 13

Mae **adran newydd 7D(1)** yn gwneud darpariaeth ynghylch **yr hyn y caniateir ei wneud yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau** mewn perthynas ag adrannau newydd 7A a 7B o Ddeddf 2006. Mae'n nodi y caniateir gwneud darpariaeth ynghylch:

- Effaith tynnu ymgeisydd oddi ar restr (er enghraifft, pan fo ymgeisydd wedi marw neu wedi tynnu'n ôl ar ôl i'r rhestr gael ei chyflwyno) ar gydymffurfio ag adrannau 7A a 7B. Gall y ddarpariaeth hon ganiatáu i restr gael ei thrin fel pe bai'n cydymffurfio os caiff ymgeisydd ei dynnu oddi ar restr ar ôl iddi gael ei chyflwyno.
- Archwilio datganiadau a wneir gan ymgeiswyr o dan adran 7D(2) ynghylch p'un a ydynt yn fenyw ai peidio.

Caniateir i rai grwpiau cyfyngedig o bobl (megis ymgeiswyr eraill sy'n sefyll yn yr un etholaeth a'u hasiantiaid) archwilio papurau enwebu yn ystod y cyfnod cyn etholiad.

Byddai **adran newydd 7D(1)(b)** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu'r datganiad am rywedd (sy'n ofynnol gan adran 7D(2)) at y wybodaeth y gellir ei harchwilio.

Mae **adran newydd 7D(2)** yn ei gwneud yn ofynnol bod darpariaeth yn cael ei gwneud yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau fod rhaid i berson, yn rhan o'r broses ar gyfer enwebu'r person hwnnw'n ymgeisydd gan blaid wleidyddol, ddatgan naill ai mai menyw ydyw neu nad menyw ydyw.

## Adran 2 – Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon etc.

Mae **adran 2** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd **gyflwyno cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor i adolygu gweithrediad ac effaith adrannau 7A i 7D o Ddeddf 2006** (fel y'u mewnosodir gan adran 1). Byddai angen cyflwyno'r cynnig hwn cyn gynted â phosibl, a heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn etholiad cyffredinol cyntaf y Senedd a gynhelir ar ôl i adran 1 o'r Bil ddod i rym.

Pe bai pwyllgor yn cael ei sefydlu, byddai rhaid iddo gwblhau adroddiad ar yr adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl i adran 1 o'r Bil ddod i rym.

Pe bai'r pwyllgor hwnnw'n gosod adroddiad gerbron y Senedd, mae **adran 2(5)** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd yn nodi eu hymateb i'r adroddiad.

## Adran 3 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

### Darpariaethau Cyffredinol

Mae **adran 3** yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw **ddarpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed** y maent yn ei hystyried yn briodol er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Bil. Gellir defnyddio'r pŵer hwn i ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu Deddf 2006 neu unrhyw ddeddfiad arall, pryd bynnag y caiff ei basio neu ei wneud.

## Adran 4 – Dod i rym

Mae **adran 4** yn darparu i wahanol adrannau o'r Bil **ddod i rym** mewn trefn benodol unwaith y caiff y Cydsyniad Brenhinol. Byddai adrannau 3, 4 a 5 yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol, a byddai'r adrannau eraill yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol.

## Adran 5 – Enw byr

Mae **adran 5** yn darparu mai **enw byr y Bil**, pe bai'n dod yn ddeddf, fyddai Deddf Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) 2024.